<u>**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - Asesiad Effaith Integredig (AEI)**</u>

**Bydd angen Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar gyfer pob penderfyniad, adolygiad polisi neu weithredu polisi.**

- Adran 1 - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Adran 2 – Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Adran 3 - Cynllun Corfforaethol
- Adran 4 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Adran 5 - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Adran 6 – Hawliau Plant "Y Ffordd Gywir"
- Adran 7 - Diogelwch Cymunedol
- Adran 8 y Lluoedd Arfog
- Adran 9 - Data
- Adran 10 - Ymgynghoriadau - Athrawiaeth Ymgynghori Statudol o Ddisgwyliad Cyfreithlon ac Egwyddorion Gunning
- Adran 11 – Monitro
- Adran 12 - Penderfyniad ar y cynnig

| Swyddog Arweiniol | Pennaeth Gwasanaeth | Maes Gwasanaeth ac Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Jon Mower** | **Joanne Watts** | **Adnoddau a Chynllunio Addysg** | **19.1.26v1**<br>**16.4.26v2** |

| **Beth yw'r cynnig sydd angen ei asesu?**<br>Amlinellwch y cynnig yn gryno gan nodi pa newid neu benderfyniad sydd i'w wneud, a darparwch hefyd unrhyw ddogfennaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi hyn. |
|---|
| Mae'r cynnig hwn yn ceisio lleihau capasiti Cymuned Ddysgu Abertyleri – Campysau Cynradd yng ngoleuni lleoedd gwag a grëwyd yn yr ysgol o ganlyniad i niferoedd is o ddisgyblion sy'n mynd i mewn i'r cyfnod Cynradd. Mae'r tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg yn dymuno gostwng y niferoedd o 980 o leoedd yn y Campysau Cynradd i 770 o leoedd gan olygu bod 210 o leoedd yn cael eu dileu.<br><br>Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri'n darparu ar gyfer disgyblion (3-16 oed) dros 4 campws, ac mae'r ysgol yn gweithredu ar y safleoedd canlynol<br>• Campws Uwchradd Stryd Alma<br>• Campws Heol Roseheyworth<br>• Campws y Chwe Chloch a hefyd<br>• Campws Cynradd Stryd Tyleri<br><br>Mae'r Ysgol Pob Oed hefyd yn darparu canolfan adnoddau uwchradd yng nghampysau Stryd Alma a'r Chwe Chloch. Mae ganddi hefyd ddarpariaeth gofal plant allanol yn Heol Roseheyworth.<br><br>**DS gweler y ddogfen ymgynghori ar-lein** |

| **Adran 1**<br>**Amlinellwch sut y bydd y cynnig yn effeithio ar unrhyw bobl neu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, cyfeiriwch at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) am ragor o wybodaeth** [Equality Act 2010: guidance - GOV.UK (www.gov.uk)] **a chanllawiau'r EHRC** [The Essential Guide to the Public Sector Equality Duty: EHRC]<br>**Amlinellwch yn gryno isod a fydd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol o ganlyniad i'r cynnig sy'n cael ei ystyried.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Nodweddion gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?** | **Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw dystiolaeth neu farn sydd gennych sy'n cefnogi hyn.** |
| **Oedran** *(pobl o bob oed* | Niwtral / Bydd | Bydd | Mae'r cynnig yn ceisio sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl i blant a phobl ifanc drwy gynnal parhad addysg o fewn Cymuned Ddysgu Abertyleri a gweithredu pontio fesul cam sydd wedi'i gynllunio'n dda. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad a'r cwestiynau cyffredin yn cadarnhau y bydd ymweliadau ymgyfarwyddo, cymorth bugeiliol wedi'i dargedu, ac ymdrechion i gadw grwpiau cyfeillgarwch gyda'i gilydd yn cefnogi lles emosiynol disgyblion, datblygiad cymdeithasol a pharhad dysgu yn ystod cyfnodau o newid. Bydd unrhyw effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig ag aflonyddwch neu bryder, yn enwedig i ddisgyblion iau neu'r rhai sydd mewn cyfnodau pontio allweddol, yn cael eu lliniaru drwy ymgysylltu'n gynnar â theuluoedd, cymorth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion unigol, a monitro agos gan staff yr ysgol cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio. Bwriad y dull hwn yw sicrhau bod effeithiau sy'n gysylltiedig ag oedran yn gymesur ac yn fyrdymor ac yn cael eu rheoli'n effeithiol wrth gefnogi sefydlogrwydd addysgol hirdymor i ddisgyblion presennol a charfanau'r dyfodol. |
| Anabledd (pobl ag anableddau/cyflyrau hirdymor) | Niwtral / Bydd | Bydd | Mae'r cynnig yn ceisio sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl ar ddisgyblion a phobl ag anableddau drwy gadw dyletswyddau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) statudol a thrwy ymgorffori cynllunio pontio unigol o fewn Cymuned Ddysgu Abertyleri. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad a'r cwestiynau cyffredin yn cadarnhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | y bydd disgyblion ag anableddau yn cael eu cefnogi drwy drefniadau pontio fesul cam, ymweliadau ymgyfarwyddo, a goruchwyliaeth fugeiliol well, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i'r rhai a allai gael newid yn fwy heriol. Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn parhau i fod yn ganolog i gynllunio, gan sicrhau bod addasiadau rhesymol a darpariaeth briodol yn parhau i gael eu sicrhau. Bydd effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig ag amharu ar drefn arferol, pryder, neu newidiadau i amgylcheddau cyfarwydd, a godwyd gan rieni a gofalwyr yn ystod yr ymgynghoriad, yn cael eu lliniaru drwy ymgysylltu'n gynnar, cymorth wedi'i deilwra, a monitro parhaus cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio. Bwriad y dull hwn yw sicrhau bod effeithiau ar ddisgyblion anabl yn gymesur ac yn dros dro ac yn cael eu rheoli'n effeithiol wrth gynnal darpariaeth addysg gynhwysol a hygyrch yn unol â gofynion statudol. |
| Ailbennu Rhywedd (unrhyw un y mae ei hunaniaeth o ran rhywedd neu ei fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhyw a roddwyd iddynt adeg eu geni) | Niwtral | Na fydd | Mae'r cynnig yn berthnasol yn gyfartal i bob disgybl a staff, gan gynnwys y rhai y mae eu hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhyw a neilltuwyd iddynt adeg eu genedigaeth. Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith anghymesur ar bobl â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. |
| Priodas neu Bartneriaeth Sifil (pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil) | Niwtral | Niwtral | Nid yw'r nodwedd warchodedig hon yn berthnasol i ddisgyblion. Ni ragwelir unrhyw effaith ar staff nac aelodau'r gymuned yn deillio'n benodol o'r cynnig. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth (menywod sy'n feichiog a/neu ar absenoldeb mamolaeth) | Niwtral | Bydd | Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith sylweddol ar fenywod sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. Caiff effeithiau cadarnhaol eu cynyddu i'r eithaf drwy sicrhau mynediad parhaus at addysg o fewn y gymuned ddysgu leol a thrwy gynnal cyfathrebu ac ymgysylltu clir â rhieni a gofalwyr drwy gydol y cyfnod pontio. Gall effeithiau negyddol posibl godi lle mae newidiadau i fynediad i'r safle yn arwain at bellter cerdded ychydig yn uwch, a allai gyflwyno heriau tymor byr i rai unigolion yn ystod beichiogrwydd neu'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyfnod ôl-enedigol. Bydd yr effeithiau hyn yn cael eu lleihau i'r lleiafswm drwy ystyried amgylchiadau unigol, hyblygrwydd o ran trefniadau mynediad, ac ymgysylltu parhaus rhwng yr ysgol a theuluoedd. Ar y cyfan, asesir unrhyw effeithiau fel rhai isel, dros dro a hydrin, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol hirdymor ar gyfer y grŵp gwarchodedig hwn. |
| Hil (pobl o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a gwahanol gefndiroedd hiliol) | Niwtral | Na fydd | Mae'r cynnig yn berthnasol yn gyfartal i ddisgyblion, staff a theuluoedd o bob cefndir hiliol ac ethnig ac ni ddisgwylir iddo gael effaith anghymesur ar bobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. At ei gilydd, mae'r cynnig yn gyson â dyletswyddau'r cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gefndiroedd hiliol. |
| Crefydd neu Gred (pobl â gwahanol grefyddau a chredoau gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau) | Niwtral | Na fydd | Mae'r cynnig yn berthnasol yn gyfartal i ddisgyblion, staff a theuluoedd o bob crefydd a chred a'r rhai heb gred grefyddol, ac ni ddisgwylir iddo gael effaith anghymesur ar y grŵp hwn. At ei gilydd, mae'r cynnig yn gyson â dyletswyddau'r cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i ymrwymiad i hyrwyddo parch at ei gilydd a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gredoau. |
| Rhyw (menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n hunan-nodi eu rhyw) | Niwtral | Na fydd | Mae'r cynnig yn berthnasol yn gyfartal i bob disgybl, staff a theulu waeth beth fo'u rhyw neu eu rhywedd ac ni ddisgwylir iddo arwain at unrhyw effaith anghymesur ar fenywod, dynion, merched, bechgyn na'r rhai sy'n nodi eu rhywedd eu hunain. At ei gilydd, mae'r cynnig yn gyson â dyletswyddau'r cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cefnogi cyfle cyfartal i bawb. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall) | Niwtral | Na fydd | Mae'r cynnig yn berthnasol yn gyfartal i bob disgybl, aelod o staff a theulu waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol ac ni ddisgwylir iddo arwain at unrhyw effaith anghymesur. At ei gilydd, mae'r cynnig yn gyson â dyletswyddau'r cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cefnogi amgylchedd addysgol cynhwysol a diogel i bawb. |

SYLWCH: Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen cwblhau **Adran 2. Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.**

**Adran 2**
**Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)**
**Mae Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith er mwyn sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar flaen y gad wrth wneud penderfyniadau.**

**Ystyriwch y grwpiau bregus isod ac ystyriwch sut y gallai'r cynnig effeithio arnynt:**

- Rhieni sengl a theuluoedd bregus
- Pobl â llythrennedd/rhifedd isel
- Pensiynwyr
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl ddigartref
- Gofalwyr
- Cymuned y Lluoedd Arfog
- Myfyrwyr
- Aelwydydd sengl i oedolion
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Pobl sydd wedi profi'r system lloches
- Pobl o bob oed yn gadael lleoliad gofal
- Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC)
- Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol

| **Diffiniadau anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar yr isod?** | **Sut allech chi liniaru'r effeithiau negyddol a amlinellwyd** | **Amlygwch unrhyw dystiolaeth sydd wedi cael ei hystyried.** |
|---|---|---|---|
| **Incwm Isel/Tlodi Incwm** *(yn methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, cludiant ac ati)* | Niwtral / Negyddol – Asesir bod y cynnig yn cael effaith negyddol fach bosibl ar rai aelwydydd incwm isel. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad yn dangos pryderon ynghylch pellter teithio, mynediad, ac amharu ar arferion sefydledig, a allai roi pwysau ychwanegol ar deuluoedd â chydnerthedd ariannol cyfyngedig, yn enwedig lle mae aelwydydd yn dibynnu ar gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus neu mae ganddynt ddefnydd cyfyngedig o gerbydau preifat. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn cyflwyno taliadau newydd, nid | Bydd effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru drwy'r dulliau canlynol:<br>• Cynllunio pontio fesul cam a chymorth bugeiliol, yn enwedig i ddisgyblion o gartrefi mwy agored i niwed, fel y nodir yng nghwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad.<br>• Parhau i ddarparu a hyrwyddo prydau ysgol am ddim, prydau ysgol am ddim i bawb a mentrau llesiant sydd wedi'u targedu at deuluoedd sy'n profi | Mae'r asesiad hwn yn tynnu ar y canlynol:<br>• Ymatebion i'r arolwg ymgynghori sy'n tynnu sylw at bryderon gan rieni a gofalwyr ynghylch mynediad, teithio a phwysau ariannol.<br>• Y dadansoddiad thematig sy'n nodi teithio, presenoldeb ac anghydraddoldeb fel materion allweddol i deuluoedd â llai o adnoddau.<br>• Cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad ac ymatebion yr awdurdod lleol yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yw'n lleihau hawliau i addysg, ac nid yw'n newid mynediad at fudd-daliadau fel prydau ysgol am ddim neu brydau ysgol am ddim i bawb, sy'n golygu na disgwylir i'r effeithiau fod yn sylweddol nac yn hirdymor. | pwysau ariannol, gan gynnwys rhaglenni fel 'Bwyd a Hwyl' a ddarperir o safleoedd Cymuned Ddysgu Abertyleri.<br>• Monitro presenoldeb a llesiant yn barhaus, gydag ymgysylltiad wedi'i dargedu lle nodir problemau ariannol neu o ran mynediad, yn unol â threfniadau addysg a diogelu presennol.<br>• Cymhwyso meini prawf cymhwystra cludiant rhwng y cartref a'r ysgol Llywodraeth Cymru, gan adolygu amgylchiadau unigol lle mae pryderon yn codi, fel yr adlewyrchir yn ymateb yr awdurdod lleol i adborth yr ymgynghoriad. | cadarnhau trefniadau pontio fesul cam, hawl barhaus i gymorth, a chamau lliniaru.<br>• Tystiolaeth bresennol o fentrau cymorth wedi'u targedu a gyflwynir trwy safleoedd Cymuned Ddysgu Abertyleri, gan gynnwys darpariaeth Bwyd a Hwyl sy'n gysylltiedig ag amddifadedd a hawl i gael prydau ysgol am ddim. |
| **Isel a/neu Dim Cyfoeth** *(digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw arbedion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Niwtral / Negyddol – Asesir bod y cynnig yn cael effaith negyddol fach bosibl ar aelwydydd sydd â chronfeydd ariannol wrth gefn isel neu ddim cronfeydd wrth gefn o gwbl. Mae tystiolaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos pryderon y gallai hyd yn oed newidiadau bach i drefn ddyddiol – fel pellter cerdded neu amser teithio hwy, neu lai o hyblygrwydd – greu pwysau ychwanegol ar deuluoedd sydd â diffyg gallu i ymdopi â chostau neu aflonyddwch annisgwyl. Fodd | Bydd unrhyw effeithiau negyddol posibl ar aelwydydd â chyfoeth isel neu ddim cyfoeth yn cael eu lliniaru drwy'r dulliau canlynol:<br>• Trefniadau pontio fesul cam a chymorth bugeiliol wedi'i dargedu, gan leihau'r tebygolrwydd o aflonyddwch a allai arwain at gostau neu straen annisgwyl i deuluoedd, fel yr amlinellir yng nghwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad. | Mae'r asesiad hwn wedi'i lywio gan y canlynol:<br>• Ymatebion i'r arolwg ymgynghori yn tynnu sylw at bryderon gan rieni a gofalwyr ynghylch teithio, aflonyddwch i arferion, a phwysau ar deuluoedd ag adnoddau cyfyngedig.<br>• Dadansoddiad o themâu yn yr ymgynghoriad yn nodi teithio, presenoldeb ac anghydraddoldeb fel materion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bynnag, nid yw'r cynnig yn cyflwyno taliadau ariannol newydd, nid yw'n lleihau mynediad at addysg na gwasanaethau cymorth, ac nid yw'n effeithio ar hawl i brydau ysgol am ddim neu brydau ysgol am ddim i bawb. O'r herwydd, ystyrir bod effeithiau'n anuniongyrchol ac nid yn hirdymor. | • Mynediad parhaus at gymorth llesiant a chostau byw ehangach, gan gynnwys prydau ysgol am ddim / prydau ysgol am ddim i bawb a mentrau cymunedol a gyflwynir trwy safleoedd Cymuned Ddysgu Abertyleri, yn enwedig y rhai sy'n targedu teuluoedd sydd mewn sefyllfa fregus yn ariannol.<br>• Monitro presenoldeb, ymgysylltiad a llesiant yn barhaus, gan ganiatáu nodi teuluoedd sy'n cael anawsterau'n gynnar a chymorth amserol drwy brosesau presennol yr ysgol a'r awdurdod lleol.<br>• Cymhwyso trefniadau cymhwystra presennol cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, gydag achosion unigol yn cael eu hadolygu lle gallai diffyg gwydnwch ariannol waethygu rhwystrau mynediad, fel yr adlewyrchir yn ymateb yr awdurdod lleol i adborth yr ymgynghoriad. | allweddol i deuluoedd â chydnerthedd ariannol isel.<br>• Cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad ac ymatebion yr awdurdod lleol yn cadarnhau pontio fesul cam, hawl barhaus i gymorth, a mesurau lliniaru.<br>• Tystiolaeth o fentrau llesiant a diogelwch bwyd wedi'u targedu sy'n gysylltiedig ag amddifadedd a'r hawl i brydau ysgol am ddim sy'n gweithredu o fewn Cymuned Ddysgu Abertyleri. |
| **Amddifadedd Materol** *(methu cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant* | Niwtral / Negyddol – Asesir bod y cynnig yn cael effaith negyddol fach bosibl ar aelwydydd sy'n profi amddifadedd materol. Mae | Bydd effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig ag amddifadedd materol yn cael eu lliniaru drwy'r dulliau canlynol: | Mae'r asesiad hwn wedi ystyried:<br>• Adborth i'r arolwg ymgynghori yn tynnu sylw at bryderon ynghylch anghydraddoldeb, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *bywyd, atgyweirio/amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hobïau ac ati)* | tystiolaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at bryderon y gallai newidiadau i fynediad i'r ysgol, pellter teithio a threfnau dyddiol roi straen ychwanegol ar deuluoedd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion hanfodol neu reoli costau annisgwyl, fel disodli dillad, offer neu eitemau cartref sydd wedi treulio, neu gynnal amgylchedd cartref cynnes a sefydlog. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn cyflwyno rhwymedigaethau ariannol newydd, nid yw'n lleihau mynediad at addysg na hawliau sy'n gysylltiedig â lles, ac nid yw'n newid cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim neu brydau ysgol am ddim i bawb. Felly, ystyrir bod effeithiau'n anuniongyrchol ac yn gyfyngedig o ran graddfa. | • Cynllunio pontio fesul cam a chymorth bugeiliol gwell, gan leihau aflonyddwch i ddisgyblion a theuluoedd a allai fod yn llai abl i ymdopi â newid heb sgil-effeithiau, fel y nodir yng nghwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad.<br>• Mynediad parhaus at brydau ysgol am ddim / prydau ysgol am ddim i bawb a mentrau cymorth costau byw, gan gynnwys rhaglenni llesiant a diogelwch bwyd a ddarperir trwy safleoedd Cymuned Ddysgu Abertyleri, sy'n darparu mesurau lliniaru uniongyrchol i aelwydydd sy'n cael trafferth diwallu anghenion sylfaenol.<br>• Monitro presenoldeb, llesiant ac ymgysylltiad yn barhaus, gan ganiatáu i'r ysgol nodi arwyddion cynnar o straen neu allgáu sy'n gysylltiedig ag amddifadedd ac ymateb trwy lwybrau cymorth presennol.<br>• Cymhwyso trefniadau cymhwystra cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, gydag amgylchiadau unigol yn cael eu hadolygu lle gall | baich teithio, a phwysau cronnus ar deuluoedd difreintiedig.<br>• Y dadansoddiad thematig yn nodi teithio, presenoldeb a straen ariannol fel materion allweddol sy'n effeithio ar deuluoedd sydd â mynediad cyfyngedig at nwyddau a gwasanaethau.<br>• Cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad ac ymatebion yr awdurdod lleol yn cadarnhau pontio fesul cam, hawliau a gynhelir a threfniadau lliniaru.<br>• Tystiolaeth o raglenni wedi'u targedu sy'n gysylltiedig ag amddifadedd a hawl i brydau ysgol am ddim, gan gynnwys cynnal rhaglen Bwyd a Hwyl o safleoedd Cymuned Ddysgu Abertyleri. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | amddifadedd materol waethygu rhwystrau i bresenoldeb neu gyfranogiad, fel yr adlewyrchir yn ymateb yr awdurdod lleol i adborth yr ymgynghoriad. | |
| **Ardal Amddifadedd** *(lle rydych yn byw (ardaloedd gwledig), lle rydych yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus) Effaith ar yr amgylchedd?* | Niwtral / Negyddol – Asesir bod y cynnig yn cael effaith gymysg bosibl ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig neu lai hygyrch. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad yn dangos pryderon y gallai teuluoedd sy'n byw ymhellach o'r campysau sy'n weddill neu mewn ardaloedd â darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig fod â phellter teithio hwy, yn gorfod dibynnu ar gerdded neu gerbydau preifat, ac wynebu pwysau amser ychwanegol. Gall yr effeithiau hyn fod yn fwy amlwg mewn ardaloedd sydd eisoes yn profi amddifadedd, lle mae mynediad at wasanaethau a seilwaith yn gyfyngedig. I'r gwrthwyneb, mae'r cynnig hefyd yn cyflwyno effaith amgylcheddol gadarnhaol bosibl, trwy ddefnydd mwy effeithlon o ystad yr ysgol a lleihau capasiti dros ben, sy'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor ac yn galluogi buddsoddiad wedi'i dargedu'n fwy ar lai o safleoedd. | Bydd effeithiau negyddol posibl sy'n ymwneud ag amddifadedd ardaloedd yn cael eu lliniaru drwy'r dulliau canlynol:<br>• Cymhwyso canllawiau teithio gan ddysgwyr Llywodraeth Cymru a meini prawf cymhwystra cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, gan adolygu amgylchiadau unigol lle gall hygyrchedd neu amddifadedd beri rhwystrau i bresenoldeb, fel yr adlewyrchir yn ymateb yr awdurdod lleol i'r ymgynghoriad.<br>• Cynllunio pontio fesul cam a monitro bugeiliol a phresenoldeb parhaus, gan helpu i nodi materion sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â theithio, prydlondeb neu fynediad, ac ymateb iddynt yn gynnar.<br>• Ymgysylltu â gwasanaethau priffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a thrafnidiaeth lle nodir pryderon ynghylch | Mae'r asesiad hwn yn tynnu ar y canlynol:<br>• Ymatebion i'r arolwg ymgynghori a'r dadansoddiad thematig yn tynnu sylw at bryderon ynghylch pellter teithio, trafnidiaeth gyhoeddus, diogelwch ar y ffyrdd ac anfantais gronnus mewn ardaloedd difreintiedig.<br>• Cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad yn cadarnhau trefniadau pontio fesul cam a monitro presenoldeb a llesiant.<br>• Ymatebion yr awdurdod lleol a dogfennau cynllunio addysg sy'n ymdrin â lliniaru problemau trafnidiaeth, ymgysylltu ynglŷn â diogelwch ar y ffyrdd a chynaliadwyedd amgylcheddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | llwybrau cerdded, diogelwch neu dagfeydd, fel yr amlinellir mewn matricsau ymateb i'r ymgynghoriad.<br>Ystyriaethau amgylcheddol:<br>O safbwynt amgylcheddol, mae tystiolaeth yn dangos bod cydgrynhoi darpariaeth yn cefnogi:<br>• Defnydd mwy effeithlon o adeiladau ac adnoddau, gan leihau'r effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynnal safleoedd heb eu defnyddio'n ddigonol.<br>• Gostyngiadau posibl mewn allyriadau carbon dros y tymor hwy, drwy resymoli'r ystad ac aliniad ag amcanion cynaliadwyedd y cyngor, fel yr adlewyrchir mewn dogfennaeth cynllunio addysg ehangach. Bydd unrhyw gynnydd tymor byr mewn teithio i rai teuluoedd yn parhau i gael ei fonitro a'i gydbwyso yn erbyn y manteision cynaliadwyedd tymor hwy hyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cefndir Economaidd-gymdeithasol** *(dosbarth cymdeithasol, h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Niwtral / Negyddol – Asesir bod y cynnig yn cael effaith negyddol fach ac anuniongyrchol bosibl ar ddisgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy difreintiedig. Mae tystiolaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos pryderon y gallai tarfu ar amgylcheddau ysgol cyfarwydd, newidiadau i drefn ddyddiol a chynnydd canfyddedig ym maint dosbarthiadau effeithio'n anghymesur ar blant y mae gan eu rhieni neu ofalwyr lefelau is o addysg ffurfiol, cyflogaeth ansicr neu incwm cyfyngedig, ac a allai ddibynnu'n fwy trwm ar sefydlogrwydd a chymorth yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn newid yr hawl i addysg, mynediad at y cwricwlwm na chymorth statudol, ac felly ni ddisgwylir iddo greu anfantais strwythurol nac effeithiau hirdymor sy'n gysylltiedig â chefndir economaidd-gymdeithasol. | Bydd unrhyw effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig â chefndir economaidd-gymdeithasol yn cael eu lliniaru drwy'r dulliau canlynol:<br>• Cynllunio pontio fesul cam a chymorth bugeiliol gwell, gan helpu i gynnal sefydlogrwydd i ddisgyblion a allai fod yn fwy agored i newid a chefnogi ymgysylltiad â dysgu yn ystod cyfnodau pontio.<br>• Cymorth targedig ar gael yn barhaus i ddysgwyr dan anfantais, gan gynnwys prydau ysgol am ddim / prydau ysgol am ddim i bawb, mentrau llesiant, ac ymyriadau bugeiliol yn yr ysgol sy'n arbennig o bwysig i blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.<br>• Monitro presenoldeb, ymgysylltiad a llesiant yn barhaus, gan alluogi i ddisgyblion y gallai eu hamgylchiadau gartref fod yn effeithio ar eu gallu i addasu i newid gael eu nodi'n gynnar a chael cymorth amserol drwy brosesau presennol yr ysgol a'r awdurdod lleol.<br>• Cyfathrebu clir a hygyrch gyda theuluoedd i sicrhau | Mae'r asesiad hwn yn tynnu ar y canlynol:<br>• Ymatebion i'r arolwg ymgynghori a'r dadansoddiad thematig yn tynnu sylw at bryderon ynghylch aflonyddwch addysgol, meintiau dosbarth, ac anfantais gronnus i blant o gefndiroedd llai breintiedig.<br>• Cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad yn cadarnhau trefniadau pontio fesul cam, cymorth bugeiliol parhaus, a monitro llesiant ac ymgysylltiad disgyblion.<br>• Ymatebion yr awdurdod lleol yn amlinellu camau lliniaru sy'n gysylltiedig â phresenoldeb, cymorth a threfniadaeth yr ysgol yn ystod y cam gweithredu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bod rhieni a gofalwyr sydd â lefelau amrywiol o hyder, addysg neu fynediad at adnoddau yn gallu ymgysylltu â'r ysgol a deall trefniadau drwy gydol y cyfnod pontio. | |
| **Anfantais Economaidd-gymdeithasol**<br>*(Pa effaith gronnol fydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu fregusrwydd neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais)* | Niwtral – Mae gan y cynnig y potensial i greu effaith gronnus ar unigolion a grwpiau sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol neu sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n cynyddu pa mor fregus yw eu sefyllfa, gan gynnwys teuluoedd sydd mewn tlodi, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig neu lai hygyrch. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y ffaith y gallai materion fel newidiadau i drefniadau teithio, tarfu ar arferion sefydledig, a phryder sy'n gysylltiedig â phontio gael effaith fwy lle mae gan deuluoedd wydnwch ariannol cyfyngedig, mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth, neu lai o allu i amsugno newid. Gall y ffactorau hyn ryngweithio a gwaethygu anfantais bresennol, yn enwedig lle mae sawl math o fregusrwydd yn bresennol. | Mae'r awdurdod lleol a'r ysgol wedi nodi ystod o fesurau gyda'r bwriad o leihau effeithiau cronnus, gan gynnwys:<br>• Trefniadau pontio fesul cam, cymorth bugeiliol, a chadw staff cyfarwydd lle bo'n ymarferol, gan leihau'r risg o ansefydlogrwydd ar gyfer y disgyblion sydd fwyaf sensitif i newid.<br>• Mynediad parhaus at gymorth statudol a thargedig, fel prydau ysgol am ddim, mentrau llesiant, darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a phrosesau diogelu, sy'n gweithredu fel ffactorau amddiffynnol ar gyfer disgyblion dan anfantais.<br>• Cymhwyso canllawiau teithio gan ddysgwyr ac ystyriaeth o achosion unigol i fynd i'r afael â rhwystrau mynediad sy'n gysylltiedig ag amddifadedd neu | Mae'r asesiad hwn yn tynnu ar y canlynol:<br>• Canlyniadau'r arolwg ymgynghori a'r dadansoddiad thematig yn nodi pryderon ynghylch anghydraddoldeb, mynediad, teithio, ac effaith gyfunol newid ar deuluoedd sydd eisoes dan anfantais.<br>• Cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad ac ymatebion iddo yn amlinellu camau lliniaru, cynllunio pontio fesul cam, ac ymrwymiad i gefnogi grwpiau agored i niwed.<br>• Dogfennaeth cynllunio addysg ac Asesiad Effaith Integredig yn cadarnhau trefniadau ar gyfer monitro, gweithio mewn partneriaeth, a chydymffurfedd â dyletswyddau statudol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | opsiynau trafnidiaeth cyfyngedig.<br>• Monitro ac adrodd parhaus drwy brosesau llywodraethiant ac adnoddau a chynllunio addysg sefydledig, gan alluogi nodi a mynd i'r afael â materion cronnus sy'n dod i'r amlwg yn ystod ac ar ôl y cam gweithredu. | |

| **Adran 3 - Cynllun Corfforaethol**<br>*Amlinellwch unrhyw gysylltiadau sydd gan y Cynllun Corfforaethol â'r cynnig* – Cynllun Corfforaethol BG 22-27 | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1** - Cynyddu dysgu a sgiliau i'r eithaf ar gyfer pawb i greu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chydnerth | Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg o fewn yr Adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd wedi ymrwymo i'r canlynol:<br>• Ansawdd dysgu gwell: Gall lleihau capasiti helpu i alinio niferoedd dysgwyr â staffio a chyfleusterau, gan gefnogi addysgu a dysgu mwy effeithiol.<br>• Cymorth wedi'i dargedu: Gall carfanau llai ganiatáu mwy o ffocws ar ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan helpu i leihau bylchau cyrhaeddiad.<br>• Darpariaeth gynaliadwy: Mae addasu capasiti yn unol â'r galw yn cefnogi hyfywedd hirdymor darpariaeth addysg, gan leihau'r risg o aflonyddwch yn y dyfodol i ddysgwyr.<br>• Datblygu sgiliau gwell: Gall canolbwyntio adnoddau wella sut mae'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno, llwybrau sgiliau, a dulliau paratoi ar gyfer cyflogaeth neu addysg bellach.<br>Mae'r adran yn defnyddio amrywiol ddulliau ymgysylltu er mwyn deall a yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd neu a oes angen ystyried gwelliannau i sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno. |
| **Blaenoriaeth 2** - Ymateb i'r argyfwng natur a newid hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig | Drwy leihau lleoedd cynradd, cydnabyddir y bydd ôl troed adeiladau ar draws y gymuned ddysgu yn cael ei leihau. |

| | |
|---|---|
| | • Defnydd mwy effeithlon o adeiladau: Gall lleihau capasiti dros ben leihau'r defnydd o ynni a gofynion gwresogi a chynnal a chadw, gan gyfrannu at leihau carbon.<br>• Ôl-troed amgylcheddol llai: Mae gofod a ddefnyddir yn well yn cefnogi rheoli asedau'n fwy cynaliadwy.<br>• Cyfle ar gyfer cynllunio cynaliadwy: Gall lleihau capasiti gefnogi adolygiad strategol o drafnidiaeth, amserlennu, a modelau dysgu hybrid i leihau allyriadau.<br>• Defnydd cymunedol wedi'i ffocysu: Gall rheoli capasiti ganiatáu i ddefnydd cymunedol o gyfleusterau fod yn fwy trefnus a phwrpasol. |
| **Blaenoriaeth 3** - Cyngor uchelgeisiol a blaengar yn darparu gwasanaethau ansawdd da ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir | Mae ymgysylltu effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod y cyngor yn rhedeg yn effeithiol a bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol ac yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio.<br>• Darparu gwasanaethau'n effeithlon: Mae alinio capasiti â'r galw yn sicrhau bod gwasanaethau addysg yn cael eu darparu lle a phryd bynnag y maent fwyaf effeithiol.<br>• Gwerth am arian: Mae lleihau capasiti heb ei ddefnyddio'n ddigonol yn cefnogi rheolaeth ariannol gryfach ac ailfuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.<br>• Yn annog arloesedd: Gall adolygiad capasiti weithredu fel catalydd ar gyfer trawsnewid ehangach, gan gynnwys dysgu digidol, darpariaeth allgymorth, a gweithio trawswasanaeth.<br>• Cynllunio gwell: Yn galluogi cynllunio mwy cadarn ar gyfer y gweithlu, asedau a'r cwricwlwm. |
| **Blaenoriaeth 4** - Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a chydnerth | Mae Cyngor Blaenau Gwent, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill ledled Gwent, wedi gweithio gydag ysgolion, nid yn unig i herio hiliaeth a throseddau casineb, ond hefyd i hyrwyddo cynhwysiant a dathlu amrywiaeth y rhanbarth.<br>• Cymorth llesiant cryfach: Gall carfanau llai gefnogi gofal bugeiliol, diogelu a llesiant emosiynol gwell.<br>• Gwasanaethau gwydn: Mae darpariaeth addysg gynaliadwy yn cyfrannu at gymunedau sefydlog ac annibyniaeth hirdymor.<br>• Ymgysylltu cymunedol wedi'i dargedu: Gall rheoli capasiti alluogi ymgysylltu gyda theuluoedd a grwpiau cymunedol sydd â mwy o ffocws.<br>• Cymorth i ddysgwyr agored i niwed: Gall cynllunio capasiti'n effeithiol wella mynediad at wasanaethau cymorth sy'n helpu dysgwyr a theuluoedd i aros yn wydn. |

| | |
|---|---|
| **Adran 4 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio (ICLIP)**<br>*Egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)* | |
| **Pum Ffordd o Weithio** | **Sut ydych chi wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig?** |
| **Hirdymor** | Ystyriwch effaith hirdymor y cynnig ar allu cymunedau i sicrhau eu llesiant.<br><br>Nod y cynnig yw tynnu un campws o gyfanswm campysau cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri. Bydd hyn yn sicrhau dyfodol i ddysgwyr yn ardal Abertyleri ac yn gwneud y ddarpariaeth addysg yn fwy cynaliadwy. Bydd y cynnig yn alinio'r ddarpariaeth â galw demograffig realistig, yn amddiffyn ansawdd addysgol ar gyfer carfanau'r dyfodol, ac yn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn hyfyw yn y tymor hir. |
| **Atal** | Ystyriwch sut mae'r cynnig yn atal problemau rhag codi neu waethygu.<br><br>Nod y cynnig yw darparu'r gwasanaethau cywir ar gyfer y disgyblion cywir yn y lleoliad cywir mewn ymateb i anghenion yr ysgol pob oed. Mae lleihau capasiti mewn modd sydd wedi'i gynllunio yn galluogi rheolaeth ariannol reoledig a rhagweithiol, gan osgoi methiannau gwasanaeth sydyn neu benderfyniadau adweithiol yn ddiweddarach. Drwy gydgrynhoi'r ddarpariaeth cyn i safonau neu gymorth ddirywio, gall y gymuned ddysgu gynnal ansawdd yn hytrach na chaniatáu i ddirywiad graddol ddechrau. Mae lleihau capasiti mewn modd sydd wedi'i gynllunio yn caniatáu i ddarpariaeth addysg addasu'n raddol ac yn gyfrifol i anghenion sy'n newid, gan gyd-fynd ag egwyddor polisi Cymru o feddwl hirdymor. |
| **Integreiddio** | Ystyriwch sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar wasanaethau eraill a ddarperir yn ein cymunedau (gallai'r rhain fod yn wasanaethau'r cyngor neu'n wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu grwpiau eraill).<br><br>Mae'n bwysig i ddisgyblion sy'n rhan o'r ysgol gael y cyfleoedd i integreiddio ac yn cofleidio'r dull ysgol pob oed. Bydd hyn yn caniatáu i ddisgyblion gael y profiad i'w helpu i fyw bywyd annibynnol / lled-annibynnol, gyda chymorth cydweithio â grwpiau. Gall ôl troed ysgol â mwy o ffocws wella sut mae gwasanaethau iechyd yn ymgysylltu â phlant, teuluoedd a chymunedau. Mae ysgolion yn bartner ymyrryd yn fuan allweddol ar gyfer gofal cymdeithasol. Gall cydgrynhoi gryfhau'r rôl hon. Gall nifer lai o gampysau â digon o adnoddau ddod yn bwyntiau ffocws cliriach ar gyfer gwasanaethau ieuenctid a sefydliadau'r trydydd sector. |

| | |
|---|---|
| **Cydweithio**  | Ystyriwch sut rydych chi'n gweithio gyda gwasanaethau'r cyngor neu wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu grwpiau eraill yn ein cymunedau.<br><br>Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg, ynghyd â'r ysgol, wedi gweithio ar y cyd i sicrhau bod gan ddisgyblion y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt i ffynnu. Rhoddir ystyriaeth i ôl troed cymuned ddysgu â mwy o ffocws sy'n galluogi cydweithio agosach a mwy effeithiol â gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor, fel addysg a chynhwysiant, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau ieuenctid, a gwasanaethau seilwaith. |
| **Cynnwys**  | Ystyriwch sut rydych chi'n cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y cynnig hwn a sicrhau eu bod nhw'n cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau.<br><br>Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg wedi ceisio cynnwys ystod eang a chynrychioliadol o randdeiliaid yn y gwaith o ddatblygu ac ystyried y cynnig hwn, yn unol â gofynion ymgynghori statudol. Mae'r ymgysylltu wedi cynnwys rhieni a gofalwyr, disgyblion, staff ysgolion, cyrff llywodraethu, trigolion lleol, ac aelodau etholedig, gan sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cynnig wedi cael cyfle i fynegi eu barn. |

**Sut mae eich cynnig yn cysylltu â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru? Nodwch isod.**

1. **CYMRU LEWYRCHUS** … cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Mae lleihau capasiti dros ben yn galluogi'r gymuned ddysgu a'r cyngor i ddefnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithlon, gan gyfeirio cyllid i ffwrdd o gyfleusterau sy'n cael eu tanddefnyddio a thuag at ddarpariaeth rheng flaen fel:

- Ansawdd addysgu a dysgu
- Cymorth llesiant ac ADY
- Datblygu sgiliau a chyrhaeddiad

Mae addysg yn ffactor canolog sy'n sbarduno ffyniant yng Nghymru. Mae tystiolaeth yn dangos bod canlyniadau addysgol gwell wedi'u cysylltu'n gryf ag enillion gydol oes, cyfraddau cyflogaeth a chyfranogiad economaidd uwch, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd hanesyddol fel Blaenau Gwent.

| | |
|---|---|
| 2. **CYMRU GYDNERTH …** cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol ag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). Meddyliwch sut y bydd eich gweithgaredd yn ystyried gwarchod a gwella bioamrywiaeth. Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid | |
| Mae model campws cyfunol yn cefnogi cydnerthedd drwy wneud y canlynol:<br>• Lleihau dibyniaeth ar adeiladau sy'n heneiddio ac yn aneffeithlon<br>• Lleihau pwysau amgylcheddol a chynnal a chadw<br>• Cefnogi defnydd gwell a mwy cynaliadwy o dir ac ynni<br>Mae polisi Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd asedau a seilwaith cyhoeddus gwydn i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol hirdymor. | |
| 3. **CYMRU IACHACH … cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl mor uchel â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.** Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol | |
| Mae ysgolion yn chwarae rhan ataliol hanfodol mewn iechyd a llesiant. Mae lleihau capasiti yn caniatáu i adnoddau gael eu canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Gofal bugeiliol a lles emosiynol<br>• Ymyrryd mewn iechyd meddwl yn fuan<br>• Diogelu a chymorth presenoldeb<br>• Bwyd, gweithgarwch corfforol ac arferion iach<br>Mae ymchwil yng Nghymru yn dangos bod ysgolion yn arbennig o effeithiol wrth wella canlyniadau iechyd i blant a phobl ifanc, yn enwedig drwy ddulliau ataliol. | |
| 4. **CYMRU SY'N FWY CYFARTAL …** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | |
| Mae'r gymuned ddysgu yn gwasanaethu ardal sydd â mwy o amddifadedd a chymhwystra i gael prydau ysgol am ddim na'r cyfartaledd. Mae lleihau capasiti yn cefnogi cydraddoldeb drwy wneud y canlynol:<br>• Targedu adnoddau lle mae'r angen mwyaf<br>• Cryfhau darpariaeth prydau ysgol am ddim a chymorth llesiant<br>• Gwella cysondeb y cymorth i ddysgwyr agored i niwed<br>Mae tystiolaeth o Gymru yn dangos bod ysgolion yn fecanwaith allweddol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd ac addysgol, yn enwedig i blant difreintiedig. | |
| 5. **CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS** … cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da. | |

Mae lleihau capasiti yn galluogi'r gymuned ddysgu i ganolbwyntio adnoddau ar lai o safleoedd sydd â gwell adnoddau, gan helpu'r campws/campysau sy'n weddill i weithredu'n fwy effeithiol fel sefydliadau angor cymunedol. Mae ysgolion yng Nghymru yn cael eu cydnabod yn eang fel rhai canolog i gydlyniant cymunedol, gan ddarparu mannau gweladwy y gellir ymddiried ynddynt sy'n cefnogi dysgu, llesiant a chysylltiadau cymdeithasol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.
Mae'r dull hwn yn cefnogi cymunedau cydlynol drwy wneud y canlynol:

- Cynnal canolfan leol gref, adnabyddadwy
- Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ymgysylltu â'r gymuned
- Atgyfnerthu rôl yr ysgol fel ased cymunedol a rennir

6. **CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU …** cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

Mae lleihau capasiti yn galluogi'r gymuned ddysgu i ganolbwyntio gweithgareddau diwylliannol, creadigol a chyfoethogi mewn llai o leoedd sydd â gwell adnoddau.
Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer:

- Cerddoriaeth, drama a pherfformio
- Y celfyddydau gweledol a mynegiant creadigol
- Chwaraeon a diwylliant corfforol

yn parhau i fod o ansawdd uchel ac yn weladwy ac yn gynaliadwy yn hytrach na chael eu gwanhau ar draws sawl safle.
Mae'r dull crynodedig hwn yn cefnogi profiadau diwylliannol bywiog i ddysgwyr a'r gymuned ehangach, gan helpu diwylliant i aros yn weithredol a chael ei rannu a'i werthfawrogi.

7. **CYMRU SY'N GYFRIFOL YN FYD-EANG …** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang

Mae lleihau capasiti yn cefnogi cyfrifoldeb byd-eang drwy hyrwyddo defnydd effeithlon a chymesur o adnoddau cyhoeddus. Mae cynnal adeiladau dros ben neu adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio yn cynyddu'r defnydd o ynni, y galw am waith cynnal a chadw, a'r defnydd o ddeunyddiau. Mae ôl troed mwy cynaliadwy yn caniatáu i adnoddau gael eu cyfeirio lle mae ganddynt y budd addysgol a chymdeithasol mwyaf.
Mae'r dull hwn yn adlewyrchu disgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai gwasanaethau cyhoeddus reoli asedau'n gyfrifol, gan gydnabod eu heffeithiau amgylcheddol ac economaidd ehangach y tu hwnt i ffiniau lleol.

**Safonau**
**Adran 5 - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg**
*(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai unrhyw gynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.* *[Safonau'r Gymraeg](#)*

| **Gofyniad** | **A oes gan y cynnig unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral o ran yr isod?** | **Beth ellir ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | **Dangoswch unrhyw dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ffurfio'r farn hon.** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.** *Safonau 88 - 93 yn benodol* | Niwtral – Mae'r cynnig yn cydymffurfio'n llawn â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg 88–93. Asesir ei fod yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg, heb unrhyw ostyngiad mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a threfniadau lliniaru a monitro priodol ar waith. Mae'r cyngor wedi rhoi sylw dyladwy i ddyletswyddau o ran y Gymraeg drwy gydol y broses ymgynghori a gwneud penderfyniadau. | Ddim yn berthnasol | Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y canlynol:<br>• Dogfennau ymgynghori Cymuned Ddysgu Abertyleri, yn cadarnhau ymgysylltiad dwyieithog a dim newid i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg<br>• Cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad, sy'n nodi llwybrau ymgysylltu cynhwysol a chymorth i gyfranogwyr<br>• Adroddiadau cabinet ac ymgynghori, sy'n cadarnhau cydymffurfedd â'r Asesiad Effaith Integredig a threfniadau monitro |
| **Pa gyfleoedd sydd ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg? e**.e. statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd yn y gwaith/cymuned | Cadarnhaol – Er nad yw'r cynnig yn newid y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'n rhoi cyfle clir i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol, cryfhau ei defnydd bob dydd, ac atgyfnerthu ei statws o fewn ysgolion, gwasanaethau'r cyngor a'r gymuned ehangach. Drwy ymgorffori'r Gymraeg mewn cyfathrebu, ymgysylltu, bywyd ysgol a rhyngweithio cymunedol, gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at normaleiddio'r Gymraeg a'i chynaliadwyedd yn unol â deddfwriaeth genedlaethol ac ymrwymiadau lleol. | Ddim yn berthnasol | Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y canlynol:<br>• Dogfennau ymgynghori Cymuned Ddysgu Abertyleri, yn cadarnhau ymgysylltiad dwyieithog a dim newid i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pa gyfleoedd sydd ar gael i berson neu bersonau ddefnyddio'r Gymraeg?** *e.e. staff, preswylwyr ac ymwelwyr* | Mae'r cynnig yn cynnal cydymffurfedd â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg drwy sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn weladwy ac yn hygyrch drwy wasanaethau, arwyddion a chyfathrebu dwyieithog, gan ddarparu cyfleoedd parhaus i staff, trigolion ac ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus fel rhan o fywyd bob dydd yr ysgol, y cyngor a'r gymuned. | Ddim yn berthnasol | Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y canlynol:<br>• Dogfennau ymgynghori yn cadarnhau ymgysylltiad dwyieithog a mynediad cynhwysol at wybodaeth a llwybrau adborth<br>• Dogfennau cynllunio trawsnewid addysg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn tynnu sylw at ymrwymiad parhaus y cyngor i ddatblygu'r Gymraeg, ymgysylltu â staff a chynnal trefniadau monitro<br>• Fframweithiau datblygu'r Gymraeg, gan gynnwys y Siarter Iaith a disgwyliadau cynllunio cyfrwng Cymraeg ar draws ysgolion |
| **A yw'r Gymraeg wedi'i hystyried er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** | Ydy, mae'r Gymraeg wedi cael ei hystyried yn benodol drwy gydol proses y cynnig a'r broses ymgynghori er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda dogfennaeth ddwyieithog, cyfleoedd ymgysylltu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a chydymffurfedd parhaus â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg 88–93, gan gynnwys monitro i atal unrhyw effaith | Ddim yn berthnasol | Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y canlynol:<br>• Dogfennau ymgynghori yn cadarnhau ymgysylltiad dwyieithog a mynediad cynhwysol at wybodaeth a llwybrau adborth<br>• Dogfennau cynllunio trawsnewid addysg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn tynnu sylw at ymrwymiad parhaus y cyngor i ddatblygu'r Gymraeg, ymgysylltu â staff a chynnal trefniadau monitro |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. | | |

| **Adran 6 – Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant – Y Ffordd Gywir**<br><br>Mae'r Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant – Y Ffordd Gywir yn fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'n gosod CCUHP wrth wraidd cynllunio a darparu gwasanaethau ac yn integreiddio hawliau plant i bob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer. Mae Y Ffordd Gywir yn canolbwyntio ar dri phrif thema, sef Cyfranogiad, Darpariaeth ac Amddiffyn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Nodweddion gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant?** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant?** | **Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw dystiolaeth o farn sydd gennych sy'n cefnogi hyn.** |
| **Cyfranogiad** (plentyn neu berson ifanc fel rhywun sy'n cyfrannu'n weithredol at gymdeithas fel dinesydd) | Mae'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad plant drwy alluogi plant a phobl ifanc yn benodol i gyfrannu eu barn drwy fecanweithiau sefydledig a phriodol i'w hoedran. Mae tystiolaeth yn cadarnhau bod disgyblion wedi cael eu cynnwys drwy gynghorau ysgol, yr Uwch-Gyngor | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol ar gyfranogiad plant. Fodd bynnag, mae adborth yr ymgynghoriad yn dangos pryder ehangach ynghylch ymddiriedaeth yn y broses, a all effeithio ar sut mae rhai plant a phobl ifanc yn canfod dylanwad eu barn | Mae'r cynnig yn sicrhau'r cyfranogiad cadarnhaol mwyaf posibl drwy ddefnyddio llwybrau ymgysylltu strwythuredig, cynhwysol ac addas i oedran yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar gynrychiolaeth oedolion. Bydd unrhyw ganfyddiad posibl o ddylanwad cyfyngedig yn cael ei liniaru drwy adrodd yn dryloyw ar adborth disgyblion, cyfathrebu clir ynghylch sut y cafodd barn plant ei hystyried, ac ymgysylltu parhaus yn ystod y cam gweithredu. Cefnogir y dull hwn gan dystiolaeth o'r fframwaith ymgynghori ac ymateb, sy'n ymrwymo i fod yn agored, cynnal gwaith monitro, a sicrhau ymgysylltiad parhaus drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau a'u gweithredu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ysgolion a'r Fforwm Ieuenctid, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ochr yn ochr â lleisiau oedolion yn ystod y broses ymgynghori. Mae hyn yn cefnogi rôl plant fel cyfranogwyr gweithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg a'u cymuned leol. | os nad yw'r canlyniadau'n cyd-fynd â'u dewisiadau. | |
| **Darpariaeth** (hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu) | Mae'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant i ddarpariaeth drwy gefnogi cynaliadwyedd hirdymor darpariaeth addysg o fewn Cymuned Ddysgu Abertyleri. Mae tystiolaeth o'r ddogfennaeth ymgynghori yn cadarnhau bod y cynnig yn ceisio diogelu adnoddau ar gyfer addysgu, dysgu a chymorth bugeiliol, yn hytrach na dargyfeirio cyllid i ffwrdd o ddarpariaeth rheng flaen, a thrwy hynny mae'n cefnogi mynediad disgyblion at addysg a chymorth llesiant cyson o ansawdd uchel. Rhoddir pwyslais penodol ar gynnal darpariaeth statudol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gydag | Mae effaith negyddol tymor byr bosibl ar ddarpariaeth lle mae disgyblion yn profi aflonyddwch yn ystod y cyfnod pontio rhwng campysau. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at bryderon ynghylch parhad cymorth, meintiau dosbarthiadau, a mynediad at staff ac amgylcheddau dysgu cyfarwydd, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n dibynnu'n fwy ar ddarpariaeth yn yr ysgol. | Caiff effeithiau cadarnhaol eu cynyddu i'r eithaf drwy drefniadau pontio fesul cam, cadw staff cyfarwydd lle bo'n ymarferol, a gweithgareddau ymgyfarwyddo wedi'u cynllunio, gan sicrhau bod plant yn parhau i dderbyn darpariaeth addysgol a llesiant briodol drwy gydol y broses. Bydd unrhyw darfu dros dro yn cael ei liniaru drwy gymorth bugeiliol gwell, monitro wedi'i dargedu o bresenoldeb ac ymgysylltiad, a goruchwyliaeth statudol barhaus o ddarpariaeth ADY, fel y nodir yn y cwestiynau cyffredin i'r ymgynghoriad a fframwaith lliniaru'r awdurdod lleol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | anghenion unigol yn parhau i gael eu diwallu drwy brosesau sefydledig. | | |
| **Amddiffyn**<br>(mae plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio, cam-drin neu wahaniaethu | Mae'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant i gael eu hamddiffyn drwy gadw trefniadau diogelu, bugeiliol a llesiant cadarn ar draws y gymuned ddysgu. Mae tystiolaeth yn cadarnhau y bydd cyfrifoldebau, polisïau a phrosesau amlasiantaeth diogelu yn parhau i fod yr un fath, gan sicrhau bod plant yn parhau i gael eu hamddiffyn cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw gyfnod pontio. Mae ymweliadau ymgyfarwyddo wedi'u cynllunio a gweithredu fesul cam hefyd yn cefnogi diogelwch emosiynol ac yn lleihau pryder sy'n gysylltiedig â newid. | Mae risg bosibl a nodwyd drwy ymgynghori yn ymwneud â mwy o bryder, gofid emosiynol neu deimlo'n llai diogel i rai plant, yn enwedig y rhai ag ADY neu brofiadau niweidiol blaenorol, os na chaiff newid ei reoli'n dda. Mae pryderon hefyd wedi'u codi ynghylch teithio, diogelwch ar y safle ac amgylcheddau anghyfarwydd. | Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy gynllunio pontio unigol, cymorth bugeiliol a llesiant gwell, a monitro diogelu a phresenoldeb yn agos, gan sicrhau bod problemau'n cael eu nodi'n gynnar ac yn destun ymyrraeth brydlon. Mae ymgysylltu â theuluoedd a phlant, ochr yn ochr â chymhwyso polisïau diogelu a phrosesau rheoli risg yn barhaus, yn cefnogi hawl plant i gael eu hamddiffyn ymhellach. Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu hadlewyrchu yng ngofrestr risg yr ymgynghoriad a threfniadau lliniaru'r awdurdod lleol. |

**Adran 7 – Diogelwch Cymunedol**

**Dyletswydd i Ystyried Goblygiadau Trosedd ac Anhrefn**

Mae Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar droseddu, a'r angen i wneud popeth o fewn ei allu i atal trosedd ac anhrefn, ymddygiad

| gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, aildroseddu a thrais difrifol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Effeithiau** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar drosedd ac anhrefn?** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar drosedd ac anhrefn?** | **Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw dystiolaeth o farn sydd gennych sy'n cefnogi hyn.** |
| **Trosedd**<br>(ystyried yr effaith ar bob un: dioddefwyr, troseddwyr a chymdogaethau) | Mae gan y cynnig y potensial am effaith niwtral i gadarnhaol fach ar drosedd ac anhrefn drwy gydgrynhoi gweithgareddau ar lai o safleoedd sydd wedi'u goruchwylio'n dda. Mae hyn yn caniatáu rheoli safleoedd yn fwy effeithiol, gwyliadwriaeth oddefol a diogelu, a all leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyfleusterau dameidiog neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml. Bydd trefniadau diogelu, cymorth bugeiliol a monitro presenoldeb yn parhau ar waith ar draws Cymuned Ddysgu Abertyleri, gan gefnogi dulliau ataliol o fynd i'r afael ag ymddieithrio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Mae effaith negyddol bosibl yn codi os daw cyn-adeilad ysgol yn wag dros dro neu'n cael ei dan-ddefnyddio. Gall adeiladau gwag fod mewn mwy o berygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth, tresmasu a difrod troseddol os na chânt eu diogelu neu eu hailbwrpasu'n briodol. Pwysleisiodd adborth yr ymgynghoriad bryderon ynghylch diogelwch cymunedol, diogelwch safle a'r amgylchedd lleol, yn enwedig lle mae adeiladau'n rhan o gymdogaethau sefydledig neu ganolfannau cymunedol. Yn ogystal, cododd ymatebwyr bryderon y gallai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ac mewn tagfeydd traffig a phwysau parcio ar gampysau derbyn greu problemau diogelwch cymunedol lleol ar adegau | Er mwyn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â chydgrynhoi safleoedd ac unrhyw adeilad gwag posibl, bydd y cynnig yn:<br>• Sicrhau bod trefniadau diogelwch, monitro a rheoli priodol yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw safle sy'n dod yn ormodol i ofynion gweithredol, gan leihau cyfleoedd ar gyfer fandaliaeth, mynediad heb awdurdod neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Archwilio defnyddiau dros dro neu amgen ar gyfer unrhyw adeilad gwag lle bo'n bosibl, wedi'u halinio ag ysgolion bro neu amcanion ehangach y cyngor, a all helpu i gynnal gweithgareddau cadarnhaol a phresenoldeb cymunedol.<br>• Cymhwyso cynllunio pontio fesul cam, gan atal safleoedd rhag cael eu cau'n sydyn a chaniatáu amser i weithredu mesurau diogelwch a rheoli priodol.<br>• Cynnal monitro diogelu, llesiant a phresenoldeb cryf, gan gefnogi ymyrraeth gynnar a lleihau'r risg o ymddieithrio a allai gyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Parhau i ymgysylltu â thimau priffyrdd, rheoli traffig a diogelwch ar y ffyrdd i reoli tagfeydd, diogelwch cerddwyr ac effeithiau amgylcheddol o amgylch y campysau derbyn.<br>Mae'r asesiad hwn yn tynnu ar y canlynol:<br>• Ymatebion i'r ymgynghoriad a dadansoddiad thematig sy'n tynnu sylw at bryderon ynghylch diogelwch ar safleoedd, traffig, parcio, a rôl safleoedd ysgol o fewn cymunedau.<br>• Matricsau ymateb a chofrestrau risg yr awdurdod lleol sy'n nodi camau lliniaru sy'n ymwneud â diogelwch safleoedd, cynllunio pontio, rheoli traffig ac effaith ar y gymuned. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | brig, er nad oes unrhyw dystiolaeth yn awgrymu cynnydd mewn troseddau difrifol, camddefnyddio sylweddau na thrais. | • Dogfennaeth addysg ac ymgynghori sy’n cadarnhau trefniadau diogelu, llywodraethu a monitro parhaus. |
| **Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol**<br>(ystyriwch yr effaith ar bob un: dioddefwyr, troseddwyr, cymdogaethau a mannau gwyrdd) | Mae gan y cynnig y potensial am effaith niwtral i gadarnhaol fach ar ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gydgrynhoi gweithgareddau ar nifer llai o safleoedd sydd wedi’u meddiannu a’u goruchwylio’n dda. Gall defnydd cyfreithlon cynyddol o adeiladau a gwell goruchwyliaeth helpu i leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad niwsans, fandaliaeth a dirywiad amgylcheddol sy’n aml yn gysylltiedig â chyfleusterau nad ydynt yn cael eu defnyddio’n aml neu sydd wedi’u darnio. I ddioddefwyr a chymdogaethau, mae cynnal trefniadau rheoli safle, diogelu a bugeiliol cryf yn cefnogi amgylchedd lleol mwy diogel a rhagweladwy. | Gall effaith negyddol bosibl godi os daw adeilad ysgol yn wag dros dro neu’n cael ei dan-ddefnyddio, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl. Gall safleoedd o’r fath fod yn agored i’r canlynol:<br>• Ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys loetran, fandaliaeth a thresmasu<br>• Niwed amgylcheddol, fel taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon neu ddirywiad mannau gwyrdd cyfagos<br>Gall hyn gael effaith anghymesur ar y canlynol:<br>• Dioddefwyr, gan gynnwys trigolion cyfagos a disgyblion, a all deimlo’n llai diogel<br>• Cymdogaethau, lle gall adeilad gwag leihau gwyliadwriaeth oddefol a | Er mwyn lleihau’r risgiau hyn a chyflawni dyletswydd y cyngor o dan adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, bydd y cynnig yn:<br>• Sicrhau bod trefniadau diogelwch a rheoli priodol ar waith ar gyfer unrhyw safle sy’n dod yn ormodol, gan leihau cyfleoedd ar gyfer mynediad heb awdurdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>• Ystyried defnyddiau dros dro neu amgen ar gyfer adeiladau gwag lle bo’n bosibl (e.e. defnyddiau cymunedol, addysgol neu a reolir), gan helpu i gynnal gweithgarwch a gwyliadwriaeth naturiol<br>• Cymhwyso cynllunio pontio fesul cam, gan osgoi safle gwag sydyn a chaniatáu amser i weithredu mesurau diogelwch cymunedol<br>• Cynnal trefniadau bugeiliol, diogelu ac ymgysylltu ieuenctid cryf, sy’n gweithredu fel mesurau ataliol trwy gefnogi ymddygiad cadarnhaol a lleihau ymddieithrio<br>• Parhau i ymgysylltu â gwasanaethau cymdogaeth a thimau diogelwch ar y ffyrdd ac amgylcheddol i fynd i’r afael ag unrhyw effeithiau sy’n dod i’r amlwg ar strydoedd lleol neu o fewn mannau gwyrdd<br><br>Mae’r mesurau hyn yn amddiffyn dioddefwyr, yn annog ymddygiad niweidiol, yn cefnogi llesiant cymdogaethau, ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol sy’n gysylltiedig â safleoedd heb eu rheoli.<br><br>Os cytunir ar y cynnig, bydd yr adeilad yn parhau yn y portffolio addysg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | chydlyniant cymunedol<br>• Troseddwyr, yn enwedig pobl ifanc, a all gael eu denu i ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel os na chaiff safleoedd eu rheoli'n briodol<br>Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at bryderon ynghylch effaith gymunedol, diogelwch safleoedd, a rôl safleoedd ysgol fel nodweddion sefydlogi o fewn cymdogaethau lleol. | |
| **Camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill** (Meddyliwch am blant, oedolion, teuluoedd a chymunedau agored i niwed) | Mae'r cynnig yn cefnogi atal camddefnyddio sylweddau drwy gynnal cymorth cryf o ran diogelu, bugeilio a llesiant, ac ymgysylltu parhaus ag addysg, sy'n ffactorau amddiffynnol cydnabyddedig ar gyfer plant, oedolion, teuluoedd a chymunedau sy'n agored i niwed. | Mae risg anuniongyrchol bosibl y gallai aflonyddwch sy'n gysylltiedig â'r cyfnod pontio, ymddieithrio rhag cymorth, neu adeilad gwag dros dro gynyddu'r risg o gamddefnyddio sylweddau i unigolion sydd mewn perygl os na chaiff ei reoli'n ofalus. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cynyddu camddefnyddio sylweddau'n uniongyrchol; mae'r risgiau'n anuniongyrchol ac yn sefyllfaol. | Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy bontio fesul cam, diogelu amlasiantaeth ac ymyrraeth fugeiliol barhaus, nodi anawsterau'n gynnar drwy fonitro presenoldeb a llesiant, a rheolaeth ddiogel neu ddefnydd dros dro o unrhyw adeiladau dros ben i atal camddefnydd a niwed cysylltiedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aildroseddu**<br>(Meddyliwch am bobl ifanc ac oedolion, dioddefwyr, teuluoedd, cymunedau) | Mae'r cynnig yn cefnogi lleihau aildroseddu drwy gynnal ymgysylltiad ag addysg, arferion sefydlog, a mynediad at gymorth bugeiliol a diogelu i bobl ifanc ac oedolion agored i niwed, sy'n ffactorau amddiffynnol cydnabyddedig ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau. | Mae risg anuniongyrchol bosibl y gallai tarfu yn ystod y cyfnod pontio, ymddieithrio rhag gwasanaethau, neu adeilad gwag dros dro gynyddu pa mor agored i niwed y mae unigolion sydd â hanes o droseddu os na chaiff ei reoli'n effeithiol. | Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy bontio fesul cam, diogelu amlasiantaethol a chymorth ieuenctid parhaus, monitro presenoldeb a llesiant yn weithredol, a rheolaeth ddiogel neu ddefnydd dros dro o unrhyw adeiladau dros ben i atal amgylcheddau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu rhag cael eu creu. |
| **Trais Difrifol**<br>(Meddyliwch am bobl ifanc agored i niwed, oedolion agored i niwed, dioddefwyr, teuluoedd, cymunedau) | Mae'r cynnig yn cefnogi atal trais difrifol drwy gynnal diogelu, cymorth bugeiliol ac ymgysylltiad addysgol cryf, sy'n ffactorau amddiffynnol allweddol i blant ac oedolion agored i niwed ac yn cyfrannu at deuluoedd a chymunedau mwy diogel. | Mae risg tymor byr bosibl y gallai aflonyddwch yn ystod y cyfnod pontio, neu adeilad gwag dros dro, gynyddu pa mor agored i niwed y mae unigolion sydd mewn perygl neu greu amgylcheddau sy'n gysylltiedig â niwed os na chaiff ei reoli'n briodol. | Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy bontio fesul cam, diogelu amlasiantaethol a chymorth ieuenctid parhaus, monitro cadarn, a rheolaeth ddiogel o unrhyw adeiladau dros ben i atal camddefnydd ac amddiffyn cymunedau. |
| **Gwrthderfysgaeth**<br>(Pobl a lleoedd sy'n agored i derfysgaeth neu eithafiaeth dreisgar) | Mae'r cynnig yn cefnogi atal terfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar drwy gynnal diogelu, goruchwyliaeth fugeiliol ac ymgysylltiad addysgol cryf, sy'n ffactorau amddiffynnol cydnabyddedig ar gyfer pobl a lleoedd sy'n agored i radicaliaeth. | Mae risg anuniongyrchol bosibl y gallai tarfu yn ystod y cyfnod pontio, ymddieithrio rhag gwasanaethau, neu adeilad gwag dros dro gynyddu'r risg o ddylanwad eithafol os na chaiff ei reoli'n briodol. | Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy bontio fesul cam, parhau i gymhwyso hyfforddiant diogelu sy'n gysylltiedig â PREVENT a rhannu gwybodaeth amlasiantaeth, ymgysylltiad ieuenctid parhaus, a rheoli unrhyw adeiladau dros ben yn ddiogel i atal camddefnyddio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cydlyniant Cymunedol** (Ceiswyr lloches, Ymfudwyr, Dioddefwyr neu Droseddau Casineb, tensiynau cymunedol) | Mae’r cynnig yn cefnogi cydlyniant cymunedol drwy gynnal amgylcheddau addysg diogel a rheoleiddiedig ac ymgysylltu parhaus â theuluoedd a chymunedau, gan helpu i leihau ynysigrwydd ac amddiffyn grwpiau agored i niwed, gan gynnwys ceiswyr lloches, mudwyr, a dioddefwyr troseddau casineb. | Mae risg bosibl y gallai newidiadau i leoliadau ysgol cyfarwydd neu golli canolfan gymunedol dros dro gynyddu tensiynau cymunedol neu leihau diogelwch canfyddedig i grwpiau agored i niwed os na chânt eu rheoli'n ofalus. | Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy weithredu fesul cam, ymgysylltu tryloyw â chymunedau, mesurau diogelu a gwarchod cydraddoldeb parhaus, a rheolaeth ddiogel neu ddefnydd dros dro o unrhyw adeiladau dros ben i atal niwed, allgáu neu ofn o fewn cymdogaethau. |

| Adran 8 – Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog [Canllawiau Statudol Drafft AFC - Final.pdf] | | | |
|---|---|---|---|
| **Effeithiau** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar gymuned y lluoedd arfog?** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar gymuned y lluoedd arfog?** | **Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw dystiolaeth o farn sydd gennych sy'n cefnogi hyn.** |
| **Iechyd**<br>• Darparu gwasanaethau<br>• Cynllunio ac ariannu<br>• Cydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol<br>Mae'r swyddogaethau gofal iechyd hyn o fewn cwmpas y Ddyletswydd yn y lleoliadau canlynol:<br>• Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y GIG, gan gynnwys practisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol, gwasanaethau deintyddol y GIG, gwasanaethau optometreg y GIG a gwasanaethau sgrinio iechyd y cyhoedd.<br>• Gwasanaethau Gofal Eilaidd y GIG, gan gynnwys gofal brys, gwasanaethau ysbyty a chymunedol, gofal arbenigol, gwasanaethau iechyd meddwl, a gwasanaethau anghenion ychwanegol (fel y bo'n berthnasol).<br>Gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan awdurdodau lleol, gan | Nid yw'r cynnig yn lleihau mynediad at wasanaethau iechyd a ddarperir gan y GIG na'r awdurdod lleol a gall gefnogi llesiant teuluoedd y Lluoedd Arfog yn anuniongyrchol drwy hyrwyddo sefydlogrwydd a pharhad mewn addysg a chymorth cysylltiedig. | Nid oes unrhyw effaith negyddol uniongyrchol wedi'i nodi ar fynediad cymuned y Lluoedd Arfog at ddarpariaeth iechyd, er y gallai newid sy'n gysylltiedig â'r cyfnod pontio greu straen tymor byr i rai teuluoedd os na chaiff ei reoli'n ofalus. | Bydd unrhyw effeithiau posibl yn cael eu lliniaru drwy weithredu fesul cam, nodi anghenion llesiant yn gynnar, a chydweithredu parhaus rhwng partneriaid addysg, iechyd ac awdurdodau lleol i sicrhau nad oes unrhyw anfantais i gymuned y Lluoedd Arfog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynnwys gwasanaethau iechyd rhywiol a gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | | | |
| Addysg<br>Derbyniadau<br>Cyrhaeddiad addysgol a chwricwlwm<br>Lles plant<br>Cludiant<br>Presenoldeb<br>Cymorth anghenion ychwanegol<br>Defnyddio cyllid Gwasanaeth Premiwm Disgybl (Lloegr yn unig)<br>Mae'r swyddogaethau addysg hyn o fewn cwmpas y Ddyletswydd mewn lleoliadau addysg orfodol, hynny yw, addysg gynradd, uwchradd, ac, ar gyfer Lloegr yn unig, addysg bellach orfodol. Nid yw'r Ddyletswydd yn cynnwys lleoliadau meithrin (addysg blynyddoedd cynnar), addysg uwch, na lleoliadau addysg oedolion gwirfoddol eraill | Mae'r cynnig yn cynnal mynediad teg at addysg, darpariaeth gyson o'r cwricwlwm, diogelu, cymorth presenoldeb, trefniadau trafnidiaeth a darpariaeth anghenion ychwanegol, gan gefnogi sefydlogrwydd a llesiant plant a phobl ifanc o deuluoedd y Lluoedd Arfog yn unol ag egwyddor dim anfantais. | Nid oes unrhyw effaith niweidiol uniongyrchol wedi'i nodi ar fynediad teuluoedd y Lluoedd Arfog i addysg orfodol, er y gallai newid sy'n gysylltiedig â phontio achosi aflonyddwch tymor byr i lesiant neu bresenoldeb rhai disgyblion os na chaiff ei reoli'n ofalus, yn enwedig lle mae teuluoedd yn profi symudedd uwch. | Bydd unrhyw effaith bosibl yn cael ei lliniaru drwy weithredu fesul cam, cyfathrebu clir â theuluoedd, cludiant a chymorth ADY parhaus, a threfniadau bugeiliol a diogelu presennol i sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn cael eu cefnogi'n gyson ochr yn ochr â'u cyfoedion sifil. |
| Tai<br>Polisi dyrannu tai cymdeithasol<br>Strategaethau tenantiaeth (Lloegr yn unig)<br>Digartrefedd<br>Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Nid yw'r cynnig yn newid polisïau dyrannu tai, dyletswyddau digartrefedd na mynediad at grantiau cyfleusterau i bobl anabl, ac felly mae'n cynnal mynediad cyfartal at gymorth tai i | Nid oes unrhyw effaith negyddol uniongyrchol wedi'i nodi ar gymuned y Lluoedd Arfog mewn perthynas â thai, er y gallai unrhyw straen ehangach sy'n gysylltiedig â phontio effeithio'n anuniongyrchol ar sefydlogrwydd tai i rai teuluoedd os na chânt eu cefnogi trwy wasanaethau presennol. | Bydd unrhyw effeithiau anuniongyrchol posibl yn cael eu lliniaru drwy barhau i gymhwyso polisïau tai presennol, dyletswyddau atal digartrefedd a gweithio mewn partneriaeth, gan sicrhau y gall aelwydydd y Lluoedd Arfog gael mynediad at gymorth ar yr un sail â'r boblogaeth ehangach yn unol â Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bersonél y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd yn unol ag egwyddor dim anfantais. | | |

| **Adran 9 - Data - Amlinellwch unrhyw ddata neu dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig, gall hyn fod yn ymgynghoriadau blaenorol, data lleol/cenedlaethol, prosiectau peilot, adroddiadau, adborth gan gleientiaid ac ati.** | | |
|---|---|---|
| **Data/tystiolaeth – Pa ddata/tystiolaeth a ddefnyddiwyd? - darparwch unrhyw ddolenni.** | **Beth oedd y canfyddiadau allweddol?** | **Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?** |
| Mae'r cynnig wedi'i lywio gan ystod o dystiolaeth feintiol ac ansoddol a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori, gan gynnwys ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad ar-lein gan rieni, gofalwyr, staff a rhanddeiliaid, dadansoddiad thematig o'r adborth i'r ymgynghoriad, ac ymgysylltu â disgyblion drwy gynghorau ysgol, yr Uwch-Gyngor Ysgolion a'r Fforwm Ieuenctid. Roedd data capasiti ysgolion a rhagolygon disgyblion, sy'n dangos gostyngiad parhaus yn niferoedd disgyblion y cyfnod cynradd, yn sail i'r rhesymeg dros y cynnig. Roedd tystiolaeth ehangach a ystyriwyd yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb, llesiant a diogelu, data pontio a chynllunio anghenion dysgu ychwanegol, prydau ysgol am ddim a dangosyddion amddifadedd, a chanllawiau cymhwystra cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Defnyddiwyd cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad, ymatebion yr awdurdod lleol a dogfennaeth cynllunio addysg hefyd i asesu effeithiau, nodi risgiau a llunio mesurau lliniaru, gan sicrhau bod y cynnig wedi'i lywio gan farn rhanddeiliaid a data gweithredol a strategol presennol. | Nododd y dystiolaeth ostyngiad parhaus yn nifer y disgyblion cyfnod cynradd ar draws Cymuned Ddysgu Abertyleri, gan arwain at gynnydd mewn lleoedd gwag a defnydd aneffeithlon o ystad yr ysgol. Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at bryderon yn ymwneud â phellter teithio, parhad addysg, llesiant disgyblion, meintiau dosbarthiadau ac effaith ar y gymuned, yn enwedig i ddisgyblion iau, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a theuluoedd sy'n profi anfantais gymdeithasol-economaidd. Cadarnhaodd gweithgarwch ymgysylltu â disgyblion bwysigrwydd sefydlogrwydd, staff cyfarwydd a dulliau fesul cam wrth weithredu newid. Dangosodd tystiolaeth ehangach am addysg, llesiant, diogelu, prydau ysgol am ddim a thrafnidiaeth, er bod yr effeithiau'n hylaw, y byddai angen mesurau lliniaru i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb, hygyrchedd a diogelwch cymunedol yn cael sylw priodol. | Llywiodd y dystiolaeth y cynnig drwy ddangos angen clir i leihau capasiti i adlewyrchu'r galw demograffig wrth gynnal ansawdd addysgol a chynaliadwyedd hirdymor. Lluniodd adborth yr ymgynghoriad ac ymgysylltiad disgyblion yn uniongyrchol ddyluniad mesurau lliniaru, gan gynnwys trefniadau pontio fesul cam, cymorth bugeiliol a diogelu gwell, cadw darpariaeth ADY statudol, a chymhwyso meini prawf cymhwystra teithio gan ddysgwyr. Dylanwadodd data amddifadedd, prydau ysgol am ddim a llesiant ar y ffocws ar gymorth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau agored i niwed, tra oedd gwybodaeth am ddiogelwch cymunedol a'r ystad yn llywio'r dull o reoli unrhyw adeilad dros ben. Gyda'i gilydd, sicrhaodd y data fod y cynnig yn gymesur, wedi'i arwain gan dystiolaeth, ac wedi'i gefnogi gan drefniadau monitro a llywodraethu clir. |

| A oes unrhyw fylchau mewn data neu wybodaeth ac os felly, beth ydynt a sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â hwy? |
| --- |
| **Ddim yn berthnasol** |

**Adran 10 - Ymgynghori. Darparwch fanylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd i gefnogi'r cynnig. Ystyriwch yr Egwyddorion Gunning:**

Egwyddor 1: Rhaid ymgynghori pan fydd y cynigion yn dal mewn cyfnod ffurfiannol. Mae'n rhaid nad ydych eisoes wedi gwneud eich meddwl i fyny.

Egwyddor 2: Rhaid rhoi rhesymau digonol i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. A yw pobl wedi cael y wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?

Egwyddor 3: Rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o ystyried yr amgylchiadau?

Egwyddor 4: Rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol wrth wneud y penderfyniad terfynol

**Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgynghoriadau sydd wedi'u cynllunio neu ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal hyd yma. Ystyriwch yr egwyddorion uchod.**

**Ystyriwch y cwestiynau canlynol:**

**1.Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol gydag ystod eang a chynrychioliadol o randdeiliaid yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y cynnig. Roedd hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr disgyblion sy'n mynychu Cymuned Ddysgu Abertyleri, y disgyblion eu hunain (trwy gynghorau ysgol), staff yr ysgol, cyrff llywodraethu, aelodau etholedig, trigolion lleol, ysgolion cyfagos, awdurdodau esgobaethol lle bo'n berthnasol, undebau llafur, a sefydliadau partner. Ymgysylltwyd ag ymgyngoreion statudol mewn cydymffurfedd llawn â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y cynnig wedi cael cyfle i ddeall y rhesymeg, ystyried effeithiau posibl, a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau trwy lwybrau adborth strwythuredig.

**2. Pryd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ac a roddwyd digon o amser ar gyfer ymateb?**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol rhwng dydd Llun 2 Mawrth 2026 a dydd Sul 12 Ebrill 2026, gan ddarparu cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod, yn unol yn llawn â'r gofynion statudol a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Felly, rhoddwyd digon o amser i rieni, gofalwyr, disgyblion, staff, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill ystyried y cynnig, ceisio eglurhad lle bo angen, a chyflwyno ymatebion gwybodus. Gwnaed gwybodaeth ategol ar gael drwy gydol y cyfnod ymgynghori, ochr yn ochr â chyfleoedd i ymgysylltu, gan gynnwys sesiynau galw heibio, gan sicrhau bod gan ymgyngoreion ddigon o amser a gwybodaeth i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus.

**3. A ddarparwyd digon o wybodaeth i ymateb yn effeithiol?**

Do. Darparwyd gwybodaeth ddigonol a phriodol i alluogi ymgyngoreion i roi ystyriaeth ddeallus a gwybodus i'r cynnig. Gwnaed dogfen ymgynghori lawn ar gael yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, yn nodi'r rhesymeg dros y cynnig, yr opsiynau a ystyriwyd, effeithiau posibl, a mesurau lliniaru arfaethedig.

| |
|---|
| Cyhoeddwyd gwybodaeth ategol, gan gynnwys cwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad, ochr yn ochr â'r brif ddogfen i fynd i'r afael â chwestiynau oedd yn dod i'r amlwg a rhoi mwy o eglurder. Darparwyd cyfleoedd i ymgysylltu hefyd trwy sesiynau galw heibio wedi'u hamserlennu a sianeli cyfathrebu sefydledig, gan ganiatáu i ymgyngoreion geisio eglurhad, codi pryderon a dylanwadu ar y broses cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.<br><br>**4.Beth oedd y canfyddiadau?**<br>Gweler yr adroddiad alldro. Lle cyfeirir at dystiolaeth ymgynghori, mae hyn yn adlewyrchu adborth drafft i'r ymgynghoriad, gweithgarwch ymgysylltu a themâu disgwyliedig, a bydd y rhain yn cael eu dilysu'n llawn drwy alldro'r ymgynghoriad ffurfiol.<br>**5. A yw'r canfyddiadau wedi'u hystyried mewn perthynas â'r penderfyniad?**<br>Bydd adroddiad alldro yn cael ei ddarparu i'r cabinet ar gyfer cyfarfod ar 30 Ebrill 2026. |

| **Adran 11 - Monitro ac Adolygu** | |
|---|---|
| **Sut bydd gweithrediad y cynnig yn cael ei fonitro, gan gynnwys yr effeithiau neu'r newidiadau a wnaed?** | Os cytunir ar yr ymgynghoriad, bydd gweithrediad y cynnig yn cael ei fonitro drwy drefniadau addysg, llywodraethiant a diogelu sefydledig o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Bydd monitro yn canolbwyntio ar feysydd effaith allweddol a nodwyd drwy'r ymgynghoriad a'r Asesiad Effaith Integredig, gan gynnwys llesiant disgyblion, presenoldeb, trefniadau cludiant, darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, sefydlogrwydd staffio, effaith gymunedol ac ystyriaethau cydraddoldeb. Rhoddir sylw arbennig i drefniadau pontio a nodi'n gynnar unrhyw effeithiau niweidiol anfwriadol. |
| Pa offer monitro fydd yn cael eu defnyddio? | Bydd monitro yn defnyddio cyfuniad o'r canlynol:<br>• Data perfformiad a llesiant addysg, gan gynnwys dangosyddion presenoldeb, ymgysylltiad ac ymddygiad<br>• Monitro ADY ac adolygiadau pontio unigol, lle bo'n berthnasol<br>• Mecanweithiau adrodd diogelu, bugeiliol a llesiant<br>• Data cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac adborth gweithredol<br>• Cofrestrau risg a logiau materion, a gynhelir ac a adolygir trwy lywodraethiant prosiectau a gwasanaethau<br>• Adborth gan ysgolion, teuluoedd a rhanddeiliaid, gan gynnwys materion a uwchgyfeirir trwy sianeli sefydledig<br>Mae'r offer hyn yn cyd-fynd â'r rhai a ddefnyddir eisoes ar draws cynigion trawsnewid addysg a threfniadaeth ysgolion, gan sicrhau cysondeb a chadernid. |
| **Sut bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio ar gyfer datblygiad yn y dyfodol?** | Bydd canlyniadau monitro yn cael eu defnyddio i wneud y canlynol:<br>• Llywio gwaith i fireinio trefniadau pontio a gweithredu<br>• Nodi lle mae angen cymorth neu liniaru ychwanegol ar gyfer disgyblion, teuluoedd neu ysgolion |

| | |
|---|---|
| | • Cefnogi penderfyniadau cynllunio addysg a rheoli ystad parhaus<br>• Bwydo i weithgarwch trefniadaeth ysgolion, ysgolion bro a chynllunio cyfalaf yn y dyfodol<br>• Rhoi sicrwydd i aelodau ac uwch-swyddogion bod effeithiau'n parhau i fod yn gymesur ac yn cael eu rheoli |
| **Sut a phryd y caiff ei adolygu?** | Cynhelir adolygiad ffurfiol:<br>• Yn ystod y cyfnod gweithredu, gyda diweddariadau rheolaidd drwy drefniadau rheoli gwasanaethau<br>• Ar ôl gweithredu, i asesu effeithiau cynnar yn dilyn y cyfnod pontio<br>• Fel rhan o gylchoedd adolygu perfformiad addysg a diogelu arferol<br>Lle nodir problemau, gellir dwyn ymlaen neu ddwysáu gweithgarwch adolygu i sicrhau ymateb amserol. |
| **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd?** | Bydd cyfrifoldeb cyffredinol am fonitro ac adolygu yn nwylo'r Gwasanaeth Adnoddau a Chynllunio Addysg, gan weithio mewn partneriaeth â'r canlynol:<br>• Arweinwyr a chyrff llywodraethu ysgolion<br>• Timau cynhwysiant, ADY a diogelu<br>• Trafnidiaeth a gwasanaethau ehangach y cyngor, yn ôl yr angen<br>Bydd cynnydd a chanfyddiadau'n cael eu hadrodd drwy lwybrau llywodraethu sefydledig, gan sicrhau goruchwyliaeth gan aelodau ac atebolrwydd. |

**Adran 12 – Penderfyniad**

*Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu o adrannau 1-9, nodwch yn y tabl isod a allwch fwrw ymlaen â'r cynnig.*

| | | |
|---|---|---|
| Parhau gyda'r cynnig yn ei ffurf bresennol | **Ie** [✅] | **Nage** ☐ |
| Parhau gyda'r cynnig ond cymryd i ystyriaeth gamau rhesymol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol y cynnig | **Ie** [✅] | **Nage** ☐ |

| **Enw'r person sy'n cwblhau'r AEI** | |
|---|---|
| **Enw:** | **Jon Mower/Sharon Rowlands** |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddogion Prosiectau Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg |
| **Dyddiad:** | **16.04.26** |

| **Cymeradwyaeth Pennaeth Gwasanaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | **Joanne Watts** | | |
| **Teitl y swydd:** | **Pennaeth y Tîm Adnoddau a Chynllunio** | | |
| **Llofnod:** |  | **Dyddiad:** | **1/12/2025** |

Cysylltwch â Polisi a Phartneriaethau os oes angen unrhyw gyngor neu arweiniad pellach arnoch ar gwblhau eich asesiad drwy lissa.friel@blaenau-gwent.gov.uk neu kate.james@blaenau-gwent.gov.uk